# Treuliau Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

4 Ebrill 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am:

1. *Dadansoddiad o'r costau ffôn symudol a hawliwyd gan bob Aelod o'r Cynulliad ym mhob un o'r tair blynedd ariannol diwethaf*

2. *Enwau Aelodau'r Cynulliad sy'n rhentu neu'n berchen ar eiddo sy'n ychwanegol i'w cartref preswyl yn y Brifddinas (Cymru).*

3. *Y swm a hawlir gan bob Aelod Cynulliad i dalu taliadau rhent neu forgais yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar yr eiddo ychwanegol.*

Mae gan Aelodau'r Cynulliad yr hawl i ddefnyddio adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau er mwyn ymdrin â materion ac achosion a godir gan bobl y maent yn eu cynrychioli. Gallant hefyd hawlio ad-daliad am unrhyw gostau y bydd yn rhaid iddynt eu hysgwyddo os bydd angen iddynt aros oddi cartref dros nos i ymgymryd â'u dyletswyddau swyddogol fel Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu hawlio wedi'u cynnwys mewn 'Penderfyniad' a chyhoeddir yr holl dreuliau ar ein cronfa ddata treuliau. Mae cyfarwyddiadau ar sut i chwilio'r gronfa ddata ar gael isod.

1. Cliciwch i ddewis y flwyddyn a'r mis(oedd). (Os nad ydych yn dewis mis, bydd yn dychwelyd chwiliad am y flwyddyn gyfan).

2. Cliciwch i ddewis Aelod Cynulliad. (Os nad ydych yn clicio ar Aelod Cynulliad penodol, bydd yn dychwelyd chwiliad am bob Aelod.)

3. Cliciwch i ddewis y lwfans yr hoffech ei weld. E.e. Lwfansau Costau Ychwanegol

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

4. Cliciwch i ddod o hyd i'r math o wariant (Os nad ydych yn dewis gwariant penodol, bydd yn dychwelyd chwiliad am bob gwariant. E.e. Ffôn symudol Ffôn, Llog Morgais ar Ail Gartref, Rhent Ail Gartref.

Efallai bydd diddordeb gennych hefyd yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau.Yn ôl Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal a chyhoeddi Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r cais hwn yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF